# Siarter Teithio Llesol
## Cwm Taf Morgannwg

Rydym yn cymryd camau i leihau allyriadau carbon, gwella ansawdd yr aer a chefnogi iechyd a llesiant staff

## Cyfathrebu ac arweinyddiaeth

**Sefydlu rhwydwaith teithio iach**
Sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio iach ar draws ein sefydliadau sy'n hyrwyddo ac yn modelu ymddygiad teithio llesol a chynaliadwy fel mater o drefn

**Defnyddio negeseuon cyfathrebu cyson**
Cytuno ar, a defnyddio negeseuon cyfathrebu cyson gyda'r cyhoedd, ymwelwyr a staff ar deithio iach a lleihau teithio diangen

**Ystyried teithio iach ar draws ein swyddogaethau ehangach**
Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a buddion teithio iach ar draws swyddogaethau ehangach fel caffael, cynadleddau, cynllunio gweithleoedd a swyddfeydd, ac wrth hysbysebu rolau yn ein sefydliadau

**Darparu arweiniad strategol ar deithio iach**
Cydweithio â phartneriaid a darparu arweinyddiaeth strategol a chynllunio ar deithio iach a chynaliadwy, er enghraifft cwmpasu dichonoldeb gwasanaethau Parcio a Theithio partneriaeth

**Cynnwys ein staff**
Cynnwys staff yn rheolaidd wrth drafod pa fesurau fyddai'n eu helpu i symud i ddulliau teithio cynaliadwy, trwy arolygon teithio (arolwg gwaelodlin cychwynnol ac arolwg blynyddol o leiaf) a mentrau eraill, e.e. cystadlaethau a gwobrau staff i annog teithio iach

**Cefnogi staff sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn ddefnyddwyr ffyrdd cyfrifol**
Cefnogi staff sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn ddefnyddwyr ffyrdd cyfrifol ac ystyriol (e.e. gyrru o fewn terfynau cyflymder a pheidio â pharcio ar lonydd beicio), i alluogi cerdded a beicio diogel

## Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus

**Hyrwyddo gostyngiadau trafnidiaeth gyhoeddus**
Archwilio gostyngiadau ar drafnidiaeth gyhoeddus i staff gyda darparwyr trafnidiaeth lleol

**Cyfrannu at y map teithio iach rhyngweithiol**
Cyfrannu at fap rhyngweithiol sy'n dangos, lle bo'n berthnasol, ein seilwaith cerdded a beicio a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus o fewn ein prif safleoedd yn CTM

**Darparu cyfleusterau ac ategolion i staff i annog teithio llesol**
Asesu a darparu man storio beiciau diogel a hygyrch, cawodydd a loceri lle bo modd mewn safleoedd addas

**Hyrwyddo dull 'gwisgo dillad ymarfer corff ar gyfer teithio llesol'**
Hyrwyddo dull 'gwisgo dillad ymarfer corff ar gyfer teithio llesol' tuag at ddillad ac esgidiau gwaith, er enghraifft, caniatáu i staff wisgo esgidiau ymarfer os yw eu taith i waith yn golygu cerdded neu feicio (lle bo'n briodol)

**Galluogi staff i gael mynediad haws at feiciau yn y gwaith**
Gwella mynediad i feiciau yn y gwaith e.e. rhannu beiciau neu llogi beiciau (lle bo hynny'n briodol)

**Hyrwyddo hyfforddiant beicio a sesiynau cynnal a chadw**
Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynnig sesiynau hyfforddiant beicio a sesiwn cynnal a chadw

**Ymgysylltu â'r cynllun beicio i'r gwaith**
Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i'r holl staff (gan gynnwys e-feiciau)

## Arferion Gweithio a Gweithio ystwyth

**Cefnogi gweithio hyblyg**
Darparu opsiynau gweithio hyblyg lle bo modd, gan gynnwys gweithio gartref a/neu ganolfan leol, a datblygu diwylliant o weithio ystwyth

**Archwilio opsiynau ar gyfer desgiau poeth rhwng sefydliadau**
Archwilio cyfleoedd i alluogi staff i ddesg boeth rhwng sefydliadau partner a chyfleusterau ar draws CTM, lle bo'n briodol

**Annog teithio cynaliadwy drwy ein polisïau treuliau**
Adolygu ein polisïau costau teithio gyda'n gilydd, i annog y defnydd o deithio cynaliadwy

## Cerbydau allyriadau isel iawn

**Adolygu'r ddarpariaeth o gyfleusterau gwefru cerbydau trydan ar ein safleoedd**
Adolygu'r angen yn awr ac yn y dyfodol am seilwaith gwefru cerbydau trydan ar ein safleoedd, ac archwilio'r potensial ar gyfer sicrhau bod seilwaith gwefru ar gael i bartneriaid eraill yn yr ardal

**Adolygu ein trefniadau fflyd a chaffael**
Adolygu ein trefniadau fflyd a chaffael (lle bo'n berthnasol) ar gyfer cyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn, gan gynnwys e-feiciau ac e-feiciau cargo, lle bo'n berthnasol

Ar gyfer llofnodwyr, rhagor o wybodaeth a chymorth, ewch i: **teithiollesol.cymru/ctm**

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS PUBLIC SERVICES BOARD CWM TAF MORGANNWG